YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LI. MAI, 1951. RHIF 5.

Nodiadau'r Golygydd.

GWAED.

CARWN fod yn y cwrdd hwnnw ym Mhenderyn tua chan mlynedd a hanner yn ôl pan ddywedodd Tomos Glyn Cothi "nad oedd mwy o rinwedd yng ngwaed Iesu Grist nag mewn gwaed ceiliog." Y mae cryn dipyn o sioc yn y gosodiad o hyd ; gellid tybio faint o sioc a oedd i bobl Penderyn. Fe'i cofiwyd am flynyddoedd. Gallaf weld y wep fuasai ar ambell wyneb parchus pe bawn yn dweud yr un peth yn y Cyrddau Chwarter Undodaidd. Fe'i dwedaf rywbryd er cael profi'r pwnc !

Gwaed ! Y mae'n gasach gennyf na dim glywed yr emynau gwrthun a genir o hyd yn eglwysi Cymru, y rheiny sy'n ymdrabaeddu a gorfoleddu yn y gwaed.

> ' Boed i'r dŵr ynghyd a'r gwaed
> O Dy ystlys friw a gaed,
> Olchi f'enaid oll yn lân,
> A fy achub rhag y tân.'

Aed fy enaid i ddrewdod bythol ! Aed fy nghorff i dân tragwyddol os oes raid i mi gredu a chanu'r fath ffieidd-dra anynol cyn cael fy arbed. Yr oedd Iddewon goleuedig wedi ymwrthod ag aberthau a gwaed wyth ganrif cyn dydd Iesu hyd yn oed a dyma ni yn yr oes olau hon yn adeiladu'n diwinyddiaeth ar aberthau gwaedlyd. Gwn am un ffermwr a aeth a dwsin o wyau i blisman y diwrnod ar ôl iddo gael ei ddal yn reidio beic heb olau. Fe lwyddodd y tric am y tro ac fe dynnwyd yr enw o'r llyfr bach. Eithr ai dyma sut mae dehongli gweithredoedd y Duw Tragwyddol, y Sanctaidd a'r Glân tuag at ei blant ? A fynni di Gristion fynd at ddrws y nefoedd a dwsin o wyau yn dy law a gofyn am faddeuant ? A fynni di offrwm bywyd y gŵr glân o Nasareth er mwyn achub dy groen dy

hun? Y mae hanes sicr i'r hen genedl ymwrthod a'r aberth dynol yn stori Abraham ac Isaac; ymwrthodwyd â'r offrymau gwaedlyd i gyd a dywedwyd yn eglur mai'r aberth a fynnai Duw oedd calon ostyngedig ac ysbryd addfwyn.

Sut y buasai'r bobl yma sy'n canu mor hwylus a hapus am 'Waed yr Oen' yn teimlo pe gwelsent ddwyn oen bychan i mewn i'w capel a gweld taro'r gyllell yn ei wddf a chael eu gorfodi i ymolchi yn ei waed gwirion. Dowch ynte a'r llofrudd pennaf y clywsoch amdano, yr adyn bryntaf—a fuasech yn fodlon gweld hwn yn sefyll yn aberth rhyngoch a dicter Duw drwy ei ladd ar allor? Ond beth am yr Iesu annwyl? Dyma a genir yn orfoleddus:

'Taenellir gwaed yr Aberth drud
Ar drugareddfa'r nef o hyd.'

neu,

'Caned nef a daear lawr
Fe gaed ffynnon
I olchi pechaduriaid mawr
Yn glaerwynion.
* * * * *
'Byth fe genir am y gwaed
Ganna'r dua . . .'

Gwareder ni fel cenedl rhag anwareidd-dra emynau o'r fath yma sy'n britho'n casgliadau. Rhodder i ni syniadau rhagorach o aberth Iesu na'r syniadau plentynaidd a chyn-oesol a ail-adroddir fel rhyw Abracadabra dewinol. Ni fyn Duw ddwylo gwaedlyd, yr aberth a fyn ef yw dwylo glân. A dweud y lleiaf y mae llawer o emynau Cymru gannoedd os nad filoedd o flynyddoedd ar ôl yr amser.

Dros y Border.

Gan NANCE.

DYMA ni—ddwy Ann o Gymru, ar lwyfan yng ngorsaf Manceinion, a thocyn 'Manchester to Edinburgh' bob un dan ei maneg. Diwrnod oer o Ddy' Llun y Pasg, ac awel oer Ebrill yn gyrru plu eira a chesair o'i chesail.

Dyma'r trên bellach yn gwibio ymlaen am drigle hardd Beirdd Cylch y Llynoedd. Teimlwn falchder o'r ffaith—a 'Daffodil' Wordsworth yn dod i'm cof.

' And then my heart with pleasure fills,
And dances with the daffodils.'

—Dai Twm Dili—Fy ngwlad—i mi !

Dacw'r mynyddoedd uchel, ac un uwch na'i gyfeillion, mewn urddas penwyn, yn cadw gofal uwch tawelwch y llynnoedd.

Ymlaen ac ymlaen, heibio heb aros i'r gorsafau bach. Beth oedd enw honna ?—Gretna Green !—cauaf fy emrynt, a dychmygaf eu gweled yn ddau a dau, law yn llaw, a sêr serch yn eu llygaid, a'i forthwyl yn curo yn eu calonnau, wrth gyrchu i gyfeiriad tinc yr eingion—gyda chiwc ofnus yn ôl dros ysgwydd !

A thros y Border a mi, i ganol y mynyddoedd penwyn, a'r defaid gwlanog penddu. Sylwi ar nentydd bach brysiog—a phwyslais ar o ' brysiog '—y ' Burns ' yn treiglo'n drafflith o'r bryniau : a chofiaf weld y crychydd cam ar ungoes, mewn myfyr ar y gwastadedd, ag osgo pendrwm prydydd arno.

Nid ar brydferthwch natur yn unig y bydd byw dyn. Felly, cymeryd taith ffwdanus i'r ' Dining Car,' a'r trên yn ei hedfa. Teimlo fel morwr ar ei donnog daith ! Naws ac acen Ysgotaidd erbyn hyn, yn y mynd a'r dod, yn yr orsaf hon a'r llall.

Bellach dyma heulwen glir yn ymddangos, a ninnau yn nesu—nesu at ben ein taith, a chyrraedd Gorsaf Caledonian Edinburgh erbyn amser tê. Un Ann yn edrych ar y llall gan furmur—' Och aye ! '

Dweud wrth y gyrrwr ' Taxi ' fy mod wedi golygu gweld pawb mewn ' kilts ' yn ein croesawu ! Yntau yn ateb eu bod yn chwarae tîm Bel-droed o Lundain ar yr Iau, ac y cawsem eu gweld mewn ' kilts ' amryliw ond i ni fod yno yn llygad agored. Gwelais lawer ' kilt ' cyn ddiwedd yr wythnos. Hen Ysgotiaid cadarn yn dangos dwy ben glin ysgyrnog, y buasai Cymro ddydd fy nhad, beth bynnag, yn pwyso dwy law arnynt i'w cuddio ! Ond hefyd yn edrych yn llathraidd ag urddasol, a'u pwys ar ffon fugail lysti. Hoffwn yn neilltuol sylwi ar y plant—y bechgyn a'r merched bach, a'u hwynebau graenus, coch y ' grawel ' yn eu gwahanol ' Tartans.' ' Royal Stuart ' a ' Fighting Stuart ' fan hyn—' Mackenzie,' ' McCleod,' ' McTavish ' a ' McPherson ' fan draw, yn ddigon i ddallu llygaid neb !

Dyma Princes Street yn ei hyd, ag i fyny a phopeth a glywswn cyn hyn amdani ; urddasol iawn, a'r ' Scott Memorial ' rhyfeddol fel rhyw oruchwyliwr, yn cadw golwg ar yr holl fynd a dod. Siopau ar un ochr yn unig, a gerddi mewn blagur blodau gwanwyn ar y pryd, ben-bwy-gilydd ar yr ochr arall. Wedi gadael tywydd oer

gartref, ond naws mwyn y gwanwyn yma ar gydol yr wythnos a'r coed a'r Princes St. yn torri'n flagur.

Dyma'r Castell ar ben uchel y graig, yn gwarchod y Ddinas, nis gallwch golli golwg arno, oddiar unrhyw ran o'r ddinas. Dringasom—ie—dringasom (a chofiwn lethri Rhydodyn a Moelfre !), i fyny i'r Castell. Dyma ni heibio'r gwyliedydd mewn ' kilts ' a chot goch, heibio'r ' Earl Haig Memorial ' (ar ei geffyl), ac heibio Bruce a Wallace, un a'r llall ar naill ochr i'r fynedfa i'r Castell. Bydd y ' Guns ' yn mynd yn stwrllyd o dŵr y Castell am un o'r gloch yn gyson bob dydd i gadw hen arferiad. Wrth fyned i mewn teimlem drymder ac urddas yr hen furiau. Yr ystafell a ddygodd fy sylw a'm dychymyg fwyaf yma oedd y ' Dining Hall ' a'r lle tân enfawr. ' Tapestries ' ac arluniau gwerthfawr ar y muriau. Euthum i fyny'r grisiau carreg i un o'r tyrau, lle cedwid y ' Scottish Crown Jewels '—i ddallu llygaid, a cheisiais gofio a ddysgais yn yr ysgol am bennau Coronog Ysgotaidd yr hen amser.

Euthum oddi yma—yn un a'r Castell eto—i'r ' Scottish War Memorial '—ar ffurf ystafell eang, ni chredaf fod ei brydferthed yn unman. Cofion am wroniaid ac anwyliaid yma, a naws gweddi ac urddas. Os sieryd neb yma, byddai mewn murmur tyner. Enwau o'r gwahanol gatrawdau a'r ' Scroll ar ôl Scroll.' Mewn un mangre gwelsom a dynnai ddeigryn, ' For all the Rest—Unknown.' Nid oedd y canaries a'r llygod roddodd eu bywyd mewn ' Research Work,' wedi eu anghofio. Wrth ymado oddi yma teimlwn ein bod wedi sefyll ar dir sanctaidd.

Rhaid ar ben bore oedd mynd i Queensferry i weld y ' Forth Bridge.' Pont anferth, gywrain. Syllem mewn syndod ar y fath gelfyddyd. Brenhines yn wir o'i chymharu â Hen Bont Fach Tycam ! Cofiaf glywed am ymwelydd o'r Unol Dalaethau yn sefyll ger y Forth ag yn gofyn i Ysgotyn, ' What is that little bridge called ? ' a'r Ysgotyn dan gau 'i ddannedd yn swrth ateb—"I dinna Ken ! it was'na theer yestereen ! '

Y lle nesaf i ni ymweled ag ef oedd ' Holyrood Palace.' Plas heb na choeden yn ymyl, yn sefyll ar dir mwyn gwastad o dan gesail craig uchel—' Arthur's Seat '—(a minnau yn siwr mai ni y Cymry a bïau Arthur !) Trem urddasol arno, lawnt borfa werdd o'i ddeutu, heb na blodyn wedi ei blannu yn unlle ; melys oedd meddwl am ' Border Bach ' Crwys ! Euthum drwy y ' State Rooms '—ystafelloedd anferth, yr arluniau a'r ' Tapestries ' ar y muriau o baneli deri, arluniau gwych ' Mary Queen of Scots ' a llawer pen-coronog Ysgotaidd arall. Gwelais un hefyd o'n Brenhines Mary ninnau (y bresennol). ' Spinnet ' yn un o'r ' Drawing Rooms,' y bydd y Dywysoges Margaret yn hoff o'i chwarae pan yno ; y berdoneg ar hwn y dysgodd y ddwy Dywysoges i chwarae—wedi ei ddwyn yma o Buckingham Palace.

Dywedai'r ' Guide ' fod y carped yn y ' Drawing Room ' fwyaf yn garped un-weiad cyfan—mwyaf yn y byd. Yma y bydd y Brenin a'r Frenhines yn derbyn eu bonedd-wahoddedigion. Gwelem mewn dychymyg yr holl ysblander.

Trwy droeon ag esgyn grisiau o garreg, euthum i'r fan wedi ei nodi â ' Brass Plate ' lle y cafwyd corff David Rizzio wedi ei ladd, a thybir fod ôl gwaed ar y grisiau hyd y dydd heddiw ! I ffwrdd a mi mewn ychrid !

Ben bore eto euthum i gyfeiriad Gorsaf Caledonian i edrych am gapel yr Undodiaid yn Castle Street, ar bwys. Gan fod y drws ynghlo ni chawsom y fraint o fyned i mewn. Ond gwyddom os byddwn yno rywbryd ar y Sul, pa lê i droi. Gwelsom St. John's Anglican Church a'r Princes St. Ofnwyf na fuaswn yn medru cadw fy meddwl ar bregeth yma, gan brydferthed oedd y nenfwd.

Ddydd arall—heibio i dŷ John Knox i Eglwys Gadeiriol St. Giles. Lle anferth yw hwn a harddwch y nenfwd yn tynnu sylw yma eto. I'r dde o'r allor 'roedd mynediad i'r ' Chapel of the Thistle,' mangre fechan brydferth, a seddau unigol, pwysig yr olwg, ag enw pob ' Lord of the Thistle ' uwchben ei sedd. Nenfwd yn curo'r cwbl yma—o'r gwahanol arf beisiau. Yn ôl yn y brif Eglwys, ag heb anghofio man cofio Bobbie Burns, tynnodd un cofnod fy sylw yn neullduol—Cerflun mewn ' bronze ' ar y mur o Robert Louis Stevenson. Edrychais mewn edmygedd, a chopiais y llinellau—

' Not till the looms are silent
And the shuttles cease to fly,
Shall God unroll the canvas
And explain the reason why—
The dark threads are as needful
In the Weaver's skilful hand
As the threads of gold and silver
In the pattern He hath planned.'

Nis gallaf derfynu heb gyfeirio at y croeso caredig a roddwyd i ni. Cawsom groeso arbennig i Swper Ysgotaidd un noson i dŷ Mrs. Laurie a'i thair merch. Hithau yn bedwar-ugain-a-dwy, ond ym mhell o edrych ei hoedran. Gwraig dal, lathraidd fel llawer a welais yno, a balchder eu cenedl o'u hôl. Cofiaf ddau beth fel yn un—y ' Scotch Mist ' dros y Forth—a ' Shetland Shawl ' o waith Mrs. Laurie.

O.N.—Nid oes dim yn y stori mai'r ddwy Ann aeth a Charreg Scone ' yn ôl dros y Border.—*Gol.*

Cyrddau Blynyddol y Gymdeithas Gyffredinol.

RHAID dibynnu eleni ar adroddiadau'r *Inquirer* a felly lloffa'n fras hwnt ac yma a wnawn ar y gorau. Ni ellir yn well na dechrau gyda phregeth Laurence Redfern, pregethwr a anwylodd ei hun i ni lawer tro gyda'i bregethu gwresog a'i ddull hynaws. Hon oedd 'Pregeth y Gymdeithas' fel ei gelwir, ac Esiah vi. 8, y frawddeg sy'n gorffen gyda 'Wele fi, anfon fi' oedd ei destun. Dywedodd fod gennym lawer o bethau i'n digalonni; gwelwn y miloedd yn crwydro megis defaid heb iddynt fugail, a therfysgoedd a berw o bob tu sy'n ben ar hyn o fyd. Yr oedd hen air yn dweud "Mae miliynau yn awr yn byw na fyddant farw byth," ond slogan gwell i'r oes hon fyddai "Mae miliynau yn marw 'nawr heb fyw erioed." Y mae'r alwad a ddaeth i Esiah yn dod i ninnau hefyd, ac yn yr alwad mae gwir ddatguddiad o bwrpas bywyd. Y mae tair gris i'r alwad, (1) Datguddiad o ogoniant Duw, ac yn y golau llachar hwnnw gwêl y proffwyd ei amherffeithrwydd ef ei hun; (2) Daw'r weledigaeth a gostyngeiddrwydd i'r neb a'i gwêl; (3) Wedi'i buro ac er yn wan, y mae dyn yn awr yn gallu ateb "Wele fi, anfon fi!" Wele fi 'nawr, wele fi rywle; nid lle mae gobaith am fyd da a llwyddiant mawr; y mae llaw Duw wedi gafael ynof ac af lle dylwn fynd; gwnaf beth ddylwn wneud." Mae'n siwr. i'r bregeth yna wefreiddio; gwefreiddied ei neges ninnau yn ein tro.

Araith y llywydd newydd, sef y Parch. G. Randall Jones, B.D. yw un o'r pethau eraill y dylwn sylwi'n fanwl arni yn ddi-os. Dywedodd am Paul ei fod wedi sôn am bobl "o'r un meddwl tuag at ein gilydd." Nid bod o'r un 'meddwl' yn ein ystyr ni a anogai arnynt, annog yr oedd ar iddynt fod yn wŷr a oedd yn bwrw i'r un cyfeiriad, ac yn caru'r un pwrpas. Gadawer i'r 'farn' a'r 'meddwl' wahaniaethu ond bydded undod yn ein pwrpas. "Yr ydym yn y byd yma fel mudiad," meddai, "er dangos i'r byd ei bod yn bosib i adeiladu eglwys fyw ar sail rhyddid meddyliol llwyr, a chael undeb bwriad heb unffurfiaeth barn. Dwyn baner y Diwygwyr Protestanaidd i'r pen eithaf a wnawn yn hyn o beth a sefyll dros hawl dyn i farn bersonol." Aeth rhagddo i ddweud fod y gydwybod ddynol yn goleuo ac ar i fyny. Yr oedd 'cydwybod' heddiw yn condemnio llawer o bethau a dderbynid yn esmwyth gan ein tadau, a dyna arwydd sicr ein bod yn cael ein arwain gan Ysbryd Duw. Teyrnased yr Yspryd hwnnw oedd byrdwn ei neges.

Tystiodd llawer a fu yno fod y 'Cwrdd Trafodaeth Agored' eleni yn un o bethau gorau'r Gymdeithas. Ni ellid manylu am yr amryw destunau ond gobeithiwn y cawn ninnau yr un fendith yn

ein cwrdd trafod yn ystod y Cyrddau Blynyddol yn Llwyn eleni. Cafwyd seiat arbennig i ymdrin â'r prinder gweinidogion. Pwysleisiwyd fod angen cadw'r safon a derbyn y rhai a glywodd yr ' alwad ' yn unig, eithr dangosodd eraill fod rheidrwydd economaidd y dydd yn gorfodi llawer i ymwneud â'r weinidogaeth fel gweithwyr rhan-amser. Gweinidog rhan-amser oedd Paul, yn ei gynnal ei hun drwy wneud pebyll ac fe aeth Dr. H. J. McLachlan cyn belled a dweud fod dyddiau'r gweinidog na wnai ddim arall ond gweinidogaethu i eglwys yn gyflym ddirwyn i ben. Barn Harold Moore oedd fod rhaid sicrhau statws i'r gweinidog, teilynga barch a dylai fyw'n barchus.

Daeth yr un gofid am brinder gweinidogion i'r amlwg yn y Cwrdd Busnes Blynyddol pan gynigiwyd penderfyniad gan y Llywydd ar ran y Cyngor, 'yn datgan y farn y dylid canoli'r addoliad yn ein eglwysi ar y Sul mewn un gwasanaeth, fel bo rhyddid i'r gweinidog i weinyddu mewn rhagor nac un eglwys.' Pasiwyd dau benderfyniad arall, un yn datgan yr angen am wyliadwriaeth agos o dueddiadau'r oes i leihau rhyddid crefyddol ac arall. Galwodd y penderfyniad olaf am ddealltwriaeth heddychol rhwng y gwledydd.

Sefydlwyd Mrs. A. D. Mitchell o Ilford yn Llywydd Urdd y Benywod a chyhoeddodd Mrs. Sokell y cyn-lywydd iddi ymweld â phob cylch ond cylch Aberteifi.

Gorffennwn gyda chyfeiriad at "The Essex Hall Lecture," ' Science and Religion : a plea for understanding,' gan yr Athro Alister C. Hardy a gyhoeddir gan Lindsey Press, 1/6. Dengys yr Athro mai'r diffiniad a geir o ddiwinyddiaeth yn aml yw "gwyddoniaeth crefydd." A oes obaith yn hyn o osodiad ? Ceisir dyfalu a yw'n bosib treiddio i rai o ddirgelion crefydd trwy ymchwil wyddonol. Gellir cymwyso geiriau Dr. Von Weizsäcker i ddisgrifio pwrpas y ddarlith a'r llyfryn hwn, "*It is an old saying that the first sip from the cup of knowledge cuts us off from God—but in the bottom—of the cup God waits for those who seek him.*"

Y CIW.

Rhes hir yn aros oriau—am eu tro
Trwm eu traed dan bwysau ;
Hwy dariant ger y dorau
Yn swil a dwys fesul dau.

' *Beirdd Aberdâr.*'

Capel-y-Groes.

(*Buddugol yn Eisteddfod Capel-y-Groes* 1951).

Gapel annwyl, mwyn dy gyfarch
Gysegredig deml hedd,
Y mae delw fwyn Undodiaeth
Fyth yn amlwg ar dy wedd ;
Mae dy olwg yn urddasol
Drwy y crefftwaith cywrain glân,
Offrwm serch yr hen ffyddloniaid
Gynt fu yma'n dyblu'r gân.

Gapel annwyl, gylch dy furiau
Chwery'r awel hyfryd iach,
'Does i dorri ar dy heddwch
Ddim ond murmur Granell fach :
Yma'n brydferth ger dy allor
Gwenodd cariad lawer tro,
Sain y miwsig pêr yn erfyn
"Siwrnai dda" i blant y fro.

Gapel annwyl, ti fu'n meithrin
Yma'n dyner ar dy fron
Y Proffwydi disglair godwyd
Ar hen fryniau'r ardal hon ;
Pan oedd rhyddid yn y fantol,
'Roedd dy blant ar dir a môr,
Dwed y marmor gwyn fod yma
Dant yn eisiau yn y côr.

Gapel annwyl, i dy dangnef
Try y saint o ferw'r byd,
Lle mae'r bugail yn eu tywys
At y dyfroedd hyn o hyd :
Ac er fod cymylau duon
Heddiw yn gordoi y nen,
Mae dy hoff ddeadell fechan
Yma'n chwifio'r faner wen.

Llwynbedw, Alltyblaca. GRIFFITH MORGANS.

Gohebiaethau.

PONTRHYDYFEN.
Ebrill 18, 1951.

ANNWYL MR. D. JACOB DAFIS,—

CEFAIS flas y dydd o'r blaen ar hanes yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr—diolch yn fawr am gyhoeddi'r gyfrol mewn dyddiau fel hyn. Wrth ddarllen hanes Rees Jenkin Jones mi gofiais am gopi o *Unitarian Students* (1901) sydd yn fy meddiant. Prynais ef yn ail-law yn Aberystwyth yn 1946, a'r tu fewn iddo wedi ei ddiogelu, yr oedd llythyr oddi wrth R.J.J. at Owen M. Edwards. Y tebyg yw mai copi O.M.E. o *Unitarian Students* a brynais. Wele gopi o'r llythyr:

BRONIESTIN,
ABERDAR,
21/xii/01.

Anwyl Syr,

Diolch yn fawr am eich archeb ac am y ffaith nad ydych wedi anghofio y llyfr, yr oeddwn i wedi ei lwyr anghofio. Wrth gwrs, cyfeirio yr ydych at Feibl bach Jones Llanganna. Yr wyf yn meddwl eich bod yn iawn gyda golwg ar y pris, ac felly diolch eto. Ni wn faint o ddyddordeb fydd fy llyfr bach i chwi, *scrappy* i'r eithaf ydyw. Cyfleu ffeithiau yn benaf oedd fy amcan. Y peth goreu yn y llyfr yw y pedair llinell *yn y rhai* (paham yr ysgrifenir—*pa rai* ; gwnai fy nhad boethi fy nghlustiau ped ysgrifenwn felly) y mae John Jones (No. 38) Rhydygwin, wedi pedair blynedd yn Nghaerfyrddin a phedair yn Glasgow, yn rhoi hanes ei fywyd. Nid wyf yn gwybod imi erioed weld gwell enghraifft i'r *Multum in parvo*. Da genyf oedd eich bod wedi rhoi darlun o gartref un o fy hen deidiau yn eich "*Cymru*" diweddaf. Gwelwch fy mherthynas o dan No. 70 yn *U. Stud.* Nid yw y *letterpress* fodd bynag yn foddhaol. Byddai hanes John Jones, Llwynrhys, yn ddyddorol i ddarllenwyr "*Cymru*," a'r person all ei ysgrifenu yw Compton, Aberaeron.

Yr wyf yn parhau i ddarllen ac i fwynhau "*Cymru*" ; y teimlad cyffredin yn ei gylch yma yw ei fod yn rhy Ogleddol a rhy Fethodistaidd. Tebyg eich bod wedi clywed hyny o'r blaen, ac mor debyg a hyny yw nad yw'r bai yn gorphwys gyda chwi, ond hytrach yn y ffaith nad yw rhif eich gohebwyr yn y De mor lluosog a'r rhai yn y Gogledd. Ewch rhagoch a boed llwydd ar eich holl ymdrechion. Y mae fy merch ieuaf wedi darllen "*Wales*" gyda phleser. Sul Heddwch, yn yspryd hwnw dymunaf i chwi longyfarchiadau'r tymor.

R. J. JONES.

Os bernwch chwi fod y llythyr yn teilyngu lle yn YR YMOFYNNYDD, y mae ichwi groeso i wneud defnydd ohono.

Yr eiddoch yn gywir,

GOMER M. ROBERTS.

CANADA.
Mawrth 15, 1951.

AT OLYGYDD "YR YMOFYNNYDD,"—

"O Dud fwyn ei dad a'i fam—mynd ar ffo
I Jarrow a Harrow a Birming-ham."

AETHOCH i'r drafferth i sicrhau ystadegau diweithdra yn Jarrow a chanolfannau yng Nghymru a defnyddiasoch y ffigurau mewn ateb ymresymiadol effeithiol dros ben i R.O.J. Wedyn dyna'ch ateb chwareus i Cledlyn ar "ddwyn y tir." Yr wyf yn cyd-weld yn hollol â chwi mai dyma'r "materion cyfoes" a ddylai'n diddori ni'r Undodwyr. Dyma'n crefydd ni mewn gweithrediad. Yr wyf fi yn un o'r rhai sy'n credu fod cysylltiad annatodol rhwng diweithdra neu gyflog annigonol ar un llaw â'r ffenomen fod L.S.D. preifat mewn tir ar y llaw arall. *Ni ddylai fod pris marchnadol am dir crai mwy nag am awyr iach.* Yr elfen naturiol ag y mae yn rhaid wrthi i fodolaeth elfennol ydyw. Y mae bywyd o fath yn y byd yn gwbl amhosibl ar wahan i dir ac anwareidd-dra paganaidd hollol yw y rhaid i un dosbarth o'r hil ddynol drosglwyddo drosodd i ddosbarth arall ran helaeth o'u cynnyrch (30% i 90%) am y fraint o fyw a gweithio ar y blaned hon o gwbl. Y mae'r peth yn wallgofrwydd ar ei wyneb. Ac na thwyller ni yr Undodwyr a gred yng ngwerth a rhyddid yr unigolyn taw cenedlaetholi'r tir yw yr ateb. Ffeirio un lord am un arall anhraethol fwy amhersonol a thrahaus yw hynny. Yn hytrach rhodder sicrwydd daliadaeth i bob deiliad tirol ar yr amod iddo dalu rhent blynyddol y tir crai naturiol i'r uned gweinyddol agosaf ato megis y Plwyf neu'r Dosbarth a throsglwydded yr uned hwnnw gyfran neilltuol i'r llywodraeth canolog. Fe sicrhai hyn, nid yn unig gartrefu llywodraeth a datganoliad awdurdod ond fe ddarfyddai pob L.S.D. mewn tir. Ni ellid ei werthu am bris mwyach oherwydd y rhent preifat wedi ei gyfalafu (5% fel rheol) yw pris tir. (Dim rhent preifat, dim pris).

Fe gytuna yr economegwyr mai yr unig deitl dilys i feddiant yw llafur. Gan hynny nid yw pob treth a tholl ar gynnyrch llafur namyn lladrad noeth ag wynebgaled o eiddo cyfiawn y cynhyrchydd. Ni chasgl y llywodraeth y gwerthoedd a berthyn yn naturiol a chyfiawn i'r gymdeithas wladol eithr gadewir i'r gwerthoedd hynny fyned yn L.S.D. mewn tir. Yna i wneud i fyny'r golled fe dry'r llywodraeth at lafur a dwyn oddiar y perchennog cyfiawn drwy dreth a tholl ei eiddo personol ef. Y mae'r peth nid yn unig yn anfoesol eithr yn lloerig.

Ymhellach, gan fod ym meddiant y llywodraeth y pwer i drethu eiddo personol fe all arwystlo (mortgage) y gallu a thrwy y banciau gall argraffu arian papur i dalu ei dyledion a bwrw yr arian gwneud hwn i gylchrediad. Dyna achos chwyddiad arian (inflation), prisiau yn codi a newyn, oherwydd gwasgu gwerth y bunt fel na ellir taro bargen am wenith â Chanada nag am gig o'r Ariannin.

Ni ddylai fod yr hawl gan unrhyw lywodraeth i greu arian. Llafur neu gynnyrch yw yr unig safon y gellir sylfaenu arian arno y bydd ei werth yn

ddigyfnewid. Y mae arian fel sydd gennym ni heddiw wedi hen oroesi eu defnyddioldeb ac ni ddylent gylchredeg. Gwnai ffugurau y tro yn llawer gwell, megis sieciau bychain y diddymid hwy pan gyrhaeddent y banc neu'r gyfnewidfa.

Mae'r llythyr yn rhy hir eisoes eithr dyma'r stori : Fe'n hysbeilir i ddechrau gan yr hwn a ddywed mai ef biau y ddaear. Yna drwy dreth a tholl. Wedyn fe ddefnyddir y gallu trethol i greu arian papur a ddiraddia'r bunt a pheri codi prisiau ac yn olaf fe'ch llwgir nid yn unig drwy eich rhwystro i fyw ar eich tir eich hunain ond drwy hefyd ei gwneud hi'n anichon manteisio ar gynnyrch tir tramor oherwydd difwyno safon arian. Fe'n llywodraethir gan griw o loerigion a gwŷr economaidd anllythrennog.

ROBT. WYNNE.

Priodasau.

AR ddydd Sadwrn Pasg, Mawrth 24ain, yn eglwys Dihewyd, priodwyd Mr. DANIEL LL. DAVIES, Pantmarchog, mab yr Henadur Simon Davies, Y.H., Green Grove a Miss RADO EVANS, merch Mr. a Mrs. James Evans, Tan-y-bryn, Cribyn.

DYDD Sadwrn, 28ain o Ebrill yn Nhŷ Cwrdd Highland Place, priodwyd Mr. SAMUEL HARRIES, Bonvilston a Miss ENID MORGAN, merch Mr. a Mrs. M. R. Morgan, Unity House, Aberdâr. Gwasanaethwyd gan y gweinidog.

"Dau ynghlwm dau mwy ynghlo,
Dau enaid wedi uno."

Marwgofion.

IONAWR 6ed, bu farw THOMAS MORGANS, Shanghai, Llanwenog, gynt o Benlanganol, Cwmsychbant yn 75 oed. Ganwyd yn Penffordd, Llanwenog a bu yn yr un ardal ar hyd y blynyddoedd. Ers tair blynedd ymglafychodd, ac yn ystod yr amser yma aeth at ei ferch i Lanybydder, ac yno bu hyd at y diwedd. Gadawodd i alaru chwe mab a phedair merch, hefyd dwy chwaer, wyrion ac amryw o berthnasau eraill. Methodd dau fab a bod yn bresennol, un ohonynt yn rhy bell yng Nghanada, a'r llall yn glaf yn Southampton. Claddwyd y Mercher dilynol ym mynwent Capel-y-Bryn a'r angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. W. H.

Davies, Aberduar a'r Parch. S. E. Bowen yn y Capel. Ficer y Plwyf, Parch. D. Morris Jones, Capel Nonni a'r Parch. S. E. Bowen a wasanaethodd ar lan y bedd.

Wedi blaenu dyna'r cwbwl,
Ni raid i ni ofni mwy,
Cyn bo hir fe ddaw yr alwad
A chawn uno gyda hwy.

Mawrth 13 bu farw Miss ELIZABETH JENKINS, Glynmeherin, Cwrtnewydd yn 46 oed, a blin iawn oedd gan ei lliaws cyfeillion ei cholli mor gynnar. Un o'r eneidiau mwyn oedd ein chwaer, yn atyniadol yn ei ffordd, ac yn barod iawn a'i chroeso. Cafodd y driniaeth orau yn yr Ysbyty yng Nghaerdydd ond methwyd ei harbed. Yr oedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel-y-Bryn. Yn yr angladd dydd Llun dilynol gwasanaethwyd gan y Parch. S. E. Bowen yn cael ei gynorthwyo yn y tŷ gan y Parch. M. Davies, Ficer Tremain, ac yn y Capel yng Nghapel-y-Groes gan y Parchn. S. Morgan, Ficer Llanwenog a S. G. Thomas (B). Gwasanaethodd y Parchn. Lewis Williams a T. Oswald Williams ar lan y bedd. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hôl dri brawd a dwy chwaer a llawer o berthnasau.

Mawrth 22, WILLIAM PUGH, Llwyn, Ciliau Aeron, gynt o Bryngranod, Cwrtnewydd yn 80 mlwydd oed. Cymerwyd ef yn wael yn ddisymwth, a symudwyd ef i'r Ysbyty yn Aberystwyth. Gwnaed gweithred lawfeddygol arno a daeth drwy honno yn llwyddiannus. Ymddangosai am ddau ddiwrnod i fod yn gwella, ond daeth cyfnewidiad, a bu farw ym mhen ychydig amser. Cafodd ei fendithio ag iechyd da, mor dda fel na bu erioed yn anhwylus. Bu yn un diwyd a gweithgar iawn hyd i'w nerth, oblegid henaint, wanychu. Bu yn amaethwr llwyddiannus, a bu i'w lwyddiant ei alluogi i roddi cychwyniad da i'w blant ar ôl iddynt briodi. Yr oedd ei deulu yn lluosog, ac y mae y plant i gyd erbyn heddiw mewn amgylchiadau da. Yr oedd un ohonynt, sef Mrs. Commander Jones, yn absennol dydd yr angladd gan ei bod yn byw yn Bombay. Yr oedd un o'i feibion yn forwr, ac yn ystod yr ail ryfel collodd ei fywyd. Nid oedd ei lais i'w glywed yn uchel yn un man, ond meddai ar farn oleuedig ar faterion bywyd. Ymddiriedid yn ei eirwiredd a'i onestrwydd, a pherchid ef oblegid hynny. Gwêl ei briod a'i blant ei eisiau yn fawr gan ei fod mor gartrefol ac mor fedrus i wneud gorchwylion y cartref. Claddwyd ym mynwent eglwys Dihewyd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Lewis Williams, Ciliau Aeron a D. Pugh, Curad Ceinewydd, nai i'r ymadawedig, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parchn. J. Lewis, Cyn-Ficer Llandygwydd, perthynas a M. J. Mathias, Ficer Dihewyd a T. Gwyn Jones, Ficer Pont ar Fynach. Gadawodd i alaru briod, tri mab, wyth merch, un brawd, meibion a merched yng nghyfraith, ac amryw o wyrion a pherthynasau eraill.

Ar ddydd Sadwrn, Ebrill y 14, bu farw EVAN, annwyl briod Elizabeth Davies, Panteg, Cribin, yn 86 oed. Mab ydoedd ef i William a Margaret

Davies, gynt o'r Neuadd-lydan ; yr oedd yn ddyn cyfeillgar, caredig a heddychol ei ysbryd, diwyd ei law ac uniawn ei gymeriad. Mwynhaodd iechyd da hyd y flwyddyn olaf o'i oes, ond dioddefodd gystudd caled yn ei fisoedd diwethaf. Eglwyswr o ysbryd eang oedd ef, ond aelod o'r Capel Undodaidd yw ei briod. Claddwyd ei ran farwol ym mynwent Eglwys Cribin y dydd Mercher canlynol, a gwasanaethodd y Parch. J. Islan Jones yn y tŷ ; a'r Parchn. J. E. Jones, Ficer y Plwyf, a J. Williams, Ficer Llangendeirne yn yr Eglwys a'r fynwent.

Dydd Gwener, Ebrill yr 20fed bu farw WILLIAM DAVIES, Tangaer Cribin yn 79 oed. Mab oedd ef i'r diweddar William y Gof a Margareta ei wraig. Yr oedd yn un o deulu lluosog, ac yn blentyn bu'n aelod o ysgol Sul y Capel. Yng ngweithfeydd Morgannwg y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, ond daeth yn ôl i derfynu ei daith yn ei hen gynefin. Trawyd ef gan y parlys, a bu farw ymhen diwrnod. Bu'r angladd y dydd Mawrth canlynol. Daearwyd ei weddillion marwol ym mynwent Capel Cribin, a'r Parch. J. Islan Jones yn gwasanaethu. Gadawodd un brawd a llawer o neiaint i hiraethu ar ei ôl.

Dydd Llun, Ebrill 23ain bu farw MARTHA, priod y diweddar David Price, y Ffactri, Penwern, Cribin yn 80 oed. Bu hi yn gystuddiol o'r parlys am saith mlynedd, a bu'n amyneddgar iawn hyd y diwedd. Bu fyw'n fawr ei pharch gan bawb a'i hadwaenai, a bu ei mab—ei hunig blentyn, a'i briod yn dyner iawn wrthi yn ei chystudd. Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol ym mynwent Capel Troedyrhiw, a'i gweinidog, y Parch. T. Lloyd Jones yn gwasanaethu, gyda chynhorthwy'r Parch. J. Islan Jones.

Newyddion yr Enwad.

TARIAN I DREBANOS.—Enillodd Cangen Trebanos o Urdd y Bobl Ifainc Undodaidd glod mawr i'w heglwys ac i'r Gymdeithas Gymraeg drwy gipio'r darian am chwarae drama mewn cystadleuaeth a oedd yn agored i holl ganghennau Prydain. Yr oeddynt ym mhell ar y blaen yn ôl adroddiad a gafwyd, a'i dehongliad o'r 'Potsiar' yn gampus. Pan ddaeth y newydd i Drebanos fe'u derbyniwyd hwy a'u cynhyrchydd, Mr. Prichard, fel concwerwyr. Trueni na fuasai digon o gefnogaeth i'r Urdd yng Nghymru i ni gael trefnu cystadleuthau o'r fath yn nes i dre. Beth amdani ?

YMDDISWYDDO.—Clywsom fod Mr. Timothy Thomas, Penarwel a Mr. T. Bryn Jones, B.Sc., trysorydd ac ysgrifennydd Capel Pantydefaid wedi ymddiswyddo. Blinwyd y ddau gan afiechyd yn ddiweddar a mawr obeithiwn y cânt ill dau adferiad buan a llwyr. Talwn deyrnged i'r naill a'r llall am wasnaeth hir a thrwyadl i'r enwad mewn llawer dull a modd.

LLUNDAIN (Highgate Hill, ger Archway).—Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r canlynol am gymryd ein gwasanaethau yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn : Parch. S. E. Bowen, Mr. Elwyn Davies, Mr. Basil Hopkin, Parch. T. J. Jones, B.A. (Coventry) ac yn olaf ond nid y lleiaf, y Parch. T. L. Jones a gymrodd bedwar o'r gwasanaethau. Cawsom *Whist Drives* llwyddiannus iawn ym mis Ionawr a mis Mawrth a Mr. Denzil Davies yn llywydd ardderchog ar y ddwy. Bwriadwn gael un arall ym mis Mai. Da clywed fod ein cleifion i gyd ar wellhad, yn eu plith, Mr. D. J. Thomas (Sutton) sydd wedi bod mewn ysbyty am ddwy ysbaid a hefyd ei wraig a fu mewn ysbyty am beth amser. Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Williams (Highbury) a'u merch Gill yn eu gofid a'u hiraeth ar ôl colli un agos ac annwyl iddynt. Cynhaliwyd ein ' Cwrdd Eglwys ' blynyddol ym mis Chwefror ac fe gafwyd fod ein sefyllfa ariannol yn foddhaol er nad oes gennym ddigon o bell ffordd i brynu adeilad a chael gweinidog. Y mae angen mwy o ymdrech i gasglu swm sylweddol i'w roi i'r eglwys Saesneg i'w helpu i dalu costiau'r glanhau ac adnewyddu'r organ. Diolchwn i'r trysorydd (Mr. J. O. Lewis) a'r Ysgrifennydd (Mr. David Jones, B.A.) am eu gwaith. Cofiwn hefyd am ein dyled i'r cyfeillion sydd yn dod a'r bwyd ac yn gweithio gyda'r te o Sul i Sul ac mewn cyrddau eraill. (Nac anghofier y rhai sy'n golchi'r llestri ar ôl i ni yfed a bwyta). Ni chafodd eglwys erioed aelodau mwy ffyddlon a brwdfrydig, ond mae angen mwy o'r teip yna o hyd. Nid yw'r nifer yn ein gwasanaethau yn ystod y misoedd diwethaf wedi bod mor uchel ag a ddylai fod ; ni ddylem fodloni ar lai na hanner cant ymhob gwasanaeth.—Cafodd rhyw hanner dwsin ohonom y pleser mawr o fod yn y Gymanfa yn yr Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr ar ddydd Llun y Pasg, ac arosodd dau ohonom i'r cyfarfod bythgofiadwy hwnnw a gafwyd y prynhawn wedyn. Llongyfarchiadau i'r Hen Dŷ Cwrdd ar ei ddau can mlwyddiant a bydded i hanes y cewri gynt ein hysbrydoli ninnau ar gyfer gwaith mawr y dyfodol. Clywsom gan rai a oedd yn bresennol yn y dathlu o ardaloedd megis Castell Nedd, Rhondda, Caerdydd (ie, ac o Leeds), eu bod yn Undodiaid yn eu cred er na fynychant eglwysi Undodaidd. Tybed ai arnom ni mae'r bai am na wnânt ? Ys dywed y Sais, "*It makes you think* !"

Y Crynhoad (*The Welsh Digest*), Gwasg y Brython, Lerpwl, 1/6. Y mae'r *Crynhoad* am fis Ebrill mor ddiddorol ag erioed, ac nid oes amheuaeth bellach nad yw wedi ennill ei blwy. Yr erthyglau gorau ynddo y tro hwn yw "Crefydd a'n gwaith beunyddiol," "Maes y teirw ym Madrid" ac "Anafwyd fi." Gwelir ynddo hefyd "Eisteddfodau a Gofiaf," erthygl a ymddangosodd yn Yr Ymofynnydd beth amser yn ôl.

CYRDDAU'R PASG.—Cafwyd tywydd bendigedig a hwyl ardderchog i'r Cyrddau a gynhaliwyd yn Alltyblaca, Ebrill 24 a 25. Bu raid talu i raddau am y tywydd da oherwydd bu raid i nifer o'r cefnogwyr mwyaf cyson ddal ati wrth y tir hyd y funud eithaf, ond ni ellid cwyno ar y cynulliadau. Ni raid dweud fod y pregethu o safon uchel fel arfer a thinc amserol yn cael ei daro

ym mhob un o'r anerchiadau. Bu cryn drafod ar faterion Cwmwrdu a Phenrhiw ond rywsut ni theimlir ein bod yn symud o gwbl gyda'r naill na'r llall. Gwasgwyd yn daer am gael ymddirideolwyr y naill hen gapel a'r llall i gwrdd fel y gallo pwyllgor y Gymdeithas fynd rhagddo at faterion eraill sy'n galw am ei sylw. Torrwyd tir newydd wrth benderfynu fod ail hanner cwrdd prynhawn y Cyrddau Blynyddol a gynhelir yn Llwynrhydowen i'w neilltuo i drafod Pwnc arbennig. Bydd y testun yn agored i drafodaeth gyffredinol o'r llawr ar ôl yr anerchiad, a gobeithir gweld y fenter yn ffynnu. Gofalodd gwragedd hael Alltyplaca am fyrddau llawn a chroeso cynnes ar hyd yr ŵyl. Yr oedd yn ddrwg gennym na allai'r Parch. J. Marles Thomas fod yn bresennol oherwydd afiechyd.

CYRDDAU DATHLU'R HEN DY CWRDD.—Trwy amryfusedd gadawyd enw Mrs. H. Parke Davies, Y.H., llywydd cwrdd prynhawn y Gymanfa Ganu, allan o'r adroddiad gan ein gohebydd. Dylid crybwyll hefyd i Mr. Elwyn Davies (Myfyriwr) gymryd rhan arweiniol yn y cwrdd olaf i gyd.

"Y GWR O GASTELL HYWEL."—Deallaf y bydd ail ddarllediad o raglen Elwyn Evans ar Ddafis Castellhywel, nos Sul, Mai 27ain am 9.30—10.30 p.m.

CRONFA'R MYFYRWYR.—Carwn ddiolch yn gynnes iawn i'r tanysgrifwyr am roddi i ni llynedd y cyfanswm gorau yn hanes y gronfa, sef £150/3/8. Dyma'r manylion am gyfraniadau'r eglwysi: Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr, £3/0/3; Highland Place, £5/17/6; Aberystwyth, £16/12/0; Alltyplaca, £1/12/6; Brondeifi (D.J.), 10/6; Bwlchyfadfa, £2; Capel-y-Bryn, £4/14/0; Capel y Cwm, 13/6; Capel y Groes, £3; Caerfyrddin, £2/2/0; Caerdydd, £7/2/0; Cefn Coed, £5/15/0; Ciliau, £2; Cribyn, 10/- (Parch. Islan Jones); Ymddiriedolwyr Cwmbach, £3/3/0; Gellionnen a Threbanos, £6; Llwyn, £5/3/0; Llandysul, £9/5/0; Nottais, £3/10/0; Panteg, £1/10/0; Pantydefaid, £2/10/0; Pennard, £12/12/2; Pontypridd, £8/7/0; Rhydygwin, £2/10/0; Abertawe, £7/16/0; Llundain, £3/5/0; Eraill, £29. Gwelir mai y ddwy eglwys ieuengaf a'r lleiaf mewn rhif—Aberystwyth a Phennard sydd ar y blaen a gwelir hefyd fod rhai o'n heglwysi o hyd heb roi ysgwydd dan y baich. Y mae cyfle arall yn awr wrth law am fod y casgliadau am y flwyddyn hon yn ddyledus ar unwaith, a gwasgaf yn daer am eu cael i law cyn diwedd mis Mehefin. Diolchaf i eglwysi Capel-y-Bryn a Llundain am anfon yn barod a heb geisio ganddynt—a diolch am anfon mwy na llynedd. Mae'r myfyrwyr yn gwneud gwaith da yn y coleg a'r capeli—dangoswn ninnau ein gwerthfawrogiad drwy gyfrannu gyda phob parodrwydd.

Celfan, Southgate, Abertawe. SIMON JONES.

Our Unitarian Faith and Worship, Lindsey Press, pris 1/6, 24 td. Anerchiad gan y Dr. Mortimer Rowe yw'r llyfryn hwn a cheir ynddo arolwg treiddgar o'n ffydd a'n addoliad.

DOWSON AND HARWOOD SCHOLARSHIP FUNDS.—*Objects* : To assist in the education or training of boys for a profession, trade or calling. *Dowson Fund* : See General Assembly Year Book, page 123. *Harwood Fund* : See General Assembly Year Book, page 124. *Applications* for grants from these Funds for the year 1951-52 must be received from parents or guardians not later than May 31st. A Form of Application will be sent on request.

14, *Gordon Square, W.C.*1. MORTIMER ROWE, *Hon. Secretary.*

MINISTERS' PENSION AND INSURANCE FUND.—The Managers are prepared to consider applications, from Ministers already insured through the Fund, for grants towards the cost of the education (including maintenance) of sons or daughters, during the school or academic year 1951-52. The grants to be awarded, should suitable applications be received, are limited both as to the amount and the number of them. Forms of application (to be returned not later than May 31st) will be sent on request.

Westgate Manse, Lewes, Sussex. H. W. STEPHENSON, *Hon. Secretary.*

TORRI'R DDEDDF.

Ni aeth ef i ofyn i Gyngor y Dref
Am drwydded i godi ei dŷ ;
Gosododd y sail ar ôl dewis y fan,
Fe synnais ei weled mor hy.

Fe weithiodd yn galed o'r 'sgaffald i'r llawr
Trwy gydol pob dydd tan ei bwn,
'Rwy'n siwr iddo ddysgu y *Plan* ar ei gof
Mae'n ffrindiau a'r "Pensaer" mi wn.

Fe gasglodd y nwyddau a'u gosod yn dwt
A'i grefftwaith yn wyrthiol bron
'Roedd hithau yn helpu, ond peidiwch a sôn,
Mae'n siwr o briodi a hon !

Fe'i gwelais hi heddiw ar aelwyd y bwth
Yn trwsio a throi'r gwely plu,
Ag yntau yn chwiban ar drothwy y drws
Mor wyn ydyw byd *ceiliog du*.

Cei Newydd. JACK DAVIES.

Defnyddiau Da
Crefftwaith Da

Yr ydym heddiw yn cadw ein henw da am ddeunydd a chrefftwaith a adeiladwyd gennym yn ystod yr 90 mlynedd diwethaf. Yn y cyfnod hwn sefydlwyd 35 o ganghennau drwy Gymru a Gorllewin Lloegr i wasanaethu gwŷr a'u meibion.



HODGES AND SONS (CLOTHIERS) LTD.

WEDI EU TEILWRIO YNG NGHYMRU

The Llandyssul Agricultural Society Ltd.

LLANDYSSUL

Visit us before you buy your—

MANURES, FEEDING STUFFS, LIME, GRAIN, CORN, CONDIMENTS, SEEDS, HARDWARE, DRAPERY, GROCERY, CLOTHING, BOOTS AND SHOES, FURNITURE, ETC.

Deal at your own Society and thus save for yourself all middle profits

---

"Esplanade Cafe"

Proprietor—T. P. GRIFFITHS.

HIGH CLASS CONFECTIONER AND CATERER

MORNING COFFEE, LUNCHEONS AND HIGH TEAS

SMALL PARTIES CATERED FOR

"*Cefnogwch Undodwr*"

SEA FRONT : - : BARRY ISLAND

— COMMERCIAL AND GENERAL PRINTERS —

Within easy access to you if you reside in Glamorgan

Read the—

ABERDARE LEADER

(the paper which goes into every home in the Valley)

All enquiries—

PUGH & ROWLANDS, LTD.

ABERDARE LEADER OFFICES

ABERDARE

J. EDRYD STEPHENS & SONS

ELECTRICAL AND RADIO ENGINEERS

2A, BLUE STREET, CARMARTHEN

25 years experience in all classes of Electrical Undertakings

Recently installed in places of worship :—

FLUORESCENT AND ORDINARY LIGHTING

TUBULAR HEATERS

ORGAN BLOWERS

LIGHTING BY ELECTRIC MAINS AND BY PRIVATE PLANTS

Expert on FARM LIGHTING PLANTS

ENGINES, DYNAMOS, SWITCHBOARDS, MOTORS, COOKERS, WASHING MACHINES, REFRIGERATORS, ETC. ALWAYS IN STOCK

BEST MAKERS RADIO RECEIVERS ALWAYS IN STOCK

MODERN EQUIPMENT FOR RADIO REPAIRS

We employ an expert for every Job

FREE ADVICE AND ESTIMATES

The Shop for Value and Selection. Est. 1875.

E. R. DAVIES (L.S.O. Lond.) & SONS

Phone—3137

WATCHMAKERS

. . JEWELLERS . .

SILVERSMITHS

Private Room and Special Attention given to Engagement and Wedding Parties.

LARGE SELECTIONS OF CUPS AND MEDALS.

I, Wind Street

Llandyssul . . . . Cards.